LLANTARNAM GRANGE

PORTAL 2023

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 3 Gorffennaf 2023

Mae Llantarnam Grange yn chwilio am leisiau newydd ym myd celf a chrefft gyfoes i arddangos yn ein sioe flynyddol i raddedigion, Portal.

Os ydych wedi graddio oddi ar unrhyw gwrs BA neu MA (Anrh) mewn celfyddyd gymhwysol neu weledol o brifysgol yn y DU yn 2023, yna rydych yn gymwys i ymgeisio.

Beth yw Portal?

Mae Portal yn gyfle i bymtheg o grefftwyr, artistiaid, dylunwyr, ffotograffwyr a gwneuthurwyr sy'n graddio gymryd rhan yn yr arddangosfa flynyddol o artistiaid graddedig yn Llantarnam Grange, Cwmbrân, De Cymru.

Mae Portal hefyd yn sgwrs ehangach ynglŷn â'ch ymarfer a'ch uchelgeisiau, lle mae'r staff a gweithwyr llawrydd cynorthwyol yn gweithredu fel seinfwrdd a rhwydwaith – ac yn eich helpu i ddatblygu gyrfa iach yn y sector.

Beth sydd ar gynnig?

Mae Portal yn gyfle i gymryd rhan mewn arddangosfa grŵp a gynhelir yn Oriel 1 yn Llantarnam Grange. Bydd yr artistiaid ddewiswyd yn cael profiad o arddangos eu gwaith i'r cyhoedd, bod yn rhan o gyhoeddiad, a datblygu cymunedau artistig newydd.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

@llantarnam.grange @llantarnam_grange @LlantarnamGrnge

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

PORTAL 2023

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 3 Gorffennaf 2023

Trwy gydweithio'n agos â'n tîm, byddwch yn cael cyfle dysgu a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol ac i ddeall sut mae gweithio yn y celfyddydau.

Bydd rhai cyfleoedd mentora mewnol ar gael gyda'n Cyfarwyddwr, ein Swyddog Arddangosfeydd, yr Uwch Swyddog Ymgysylltu neu'r Swyddog Datblygu a Marchnata.

Bydd pob artist sy'n arddangos yn derbyn ffi o £100 am gymryd rhan, ynghyd â'r costau unffordd o gludo'u gwaith i Lantarnam Grange.

Cymhwysedd

- Mae'n rhaid i chi fod wedi graddio gyda BA neu MA (Anrh) yn y celfyddydau cymhwysol neu weledol o brifysgol yn y DU yn 2023.
- Byddwn yn cynnig pum lle o leiaf i artistiaid mwyafrif byd-eang, artistiaid anabl, ac/neu artistiaid sy'n siarad Cymraeg.

Faint mae'n costio?

Ni chodir unrhyw dâl am ymgeisio i Portal nac i gymryd rhan. Byddwn yn talu o leiaf £100 i artistiaid am gymryd rhan.

Dyddiadau Allweddol

- Dyddiad cau: 9am dydd Llun 3 Gorffennaf 2023

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

@llantarnam.grange @llantarnam_grange @LlantarnamGrnge

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

PORTAL 2023

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 3 Gorffennaf 2023

- Rhaid anfon yr holl ddatganiadau artist a delweddau artist at y Swyddog Arddangosfa erbyn 10 Gorffennaf fan bellaf.
- Rhaid cyflwyno gwaith erbyn 2 Awst 2023 fan bellaf.
- Dyddiadau'r Arddangosfa: 11 Awst – 4 Tachwedd 2023
- Digwyddiad Agoriadol: 6-8pm, dydd Gwener 11 Awst 2023
- Rhaid trefnu i ddychwelyd y gwaith erbyn 17 Tachwedd 2023 fan bellaf.

Os bydd rhaid i'r dyddiadau hyn newid, byddwn yn rhoi gwybod i'r holl artistiaid cyn gynted â phosibl.

Sut gallaf wneud cais?

Llenwch ein ffurflen gais ar-lein **yma**.
https://form.jotform.com/231353621205343

Mae hyn yn cynnwys

- 100 o eiriau yn esbonio pam mae gennych ddiddordeb yn Portal 2023
- Datganiad artist 150 o eiriau
- Hyd at dair delwedd ac/neu ddogfen yn cynnwys dolennau i hyd at dair ffeil fideo (sy'n cael eu lletya'n gyhoeddus ac yn weladwy ar vimeo/youtube ac ati)

Maint mwyaf y ffeiliau i'w lanlwytho yw 10MB.

Byddwch cystal â chyflwyno eich cais cyn **9am, dydd Llun 3 Gorffennaf 2023.**

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

PORTAL 2023

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 3 Gorffennaf 2023

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â Portal 2022 a'r broses, neu os hoffech drafod eich cais neu syniadau, cysylltwch â Savanna Dumelow yn: savanna.dumelow@llantarnamgrange.com

Rydym yn deall y gall dyddiadau cau fod yn drafferthus ac yn anodd eu cyflawni am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth. Os teimlwch y byddech yn hoffi ymgeisio ond, am ba reswm bynnag, ni fyddwch yn gallu cwrdd â'r terfyn amser, cysylltwch â ni a byddem yn hapus i drafod cynllun gennych yn anffurfiol ac yn gyfrinachol.

Beth yw'r broses?

Ar ôl y dyddiad cau, **dydd Llun 3 Gorffennaf 2023,** bydd staff Llantarnam Grange yn casglu ac yn adolygu'r cynigion gyda chymorth dau ddewiswr allanol annibynnol (enwau i'w cadarnhau).

Bydd yr artistiaid yn cael gwybod beth yw'r penderfyniad erbyn **dydd Gwener 7 Gorffennaf 2023**, a byddwn yn ceisio cynnig adborth gan y panel dethol os gofynnir amdano.

Bydd disgwyl i'r artistiaid ddewiswyd ddarparu gwybodaeth a lluniau yn ymwneud â'u gwaith mewn da bryd, fel y bydd digon o amser gennym i gynhyrchu a churadu'r arddangosfa erbyn y digwyddiad agoriadol ar **ddydd Gwener 11 Awst 2023**.

Parhad…

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

PORTAL 2023

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 3 Gorffennaf 2023

Ar ôl i'r arddangosfa ddiweddu ar **ddydd Sadwrn 4 Tachwedd 2023**, gofynnwn i'r holl artistiaid ddewiswyd gasglu neu drefnu i ddychwelyd eu gwaith gyda'n Swyddog Arddangosfeydd, heb fod yn hwyrach na **dydd Sadwrn 17 Tachwedd 2023**.

Pob lwc!

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

@llantarnam.grange @llantarnam_grange @LlantarnamGrnge

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241